# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-04-07(p7)

### Dyddiad: Dydd Iau 1 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Iechyd Deietegol a Dewis Defnyddwyr

Mae Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) Cymru’n croesawu’r cyfle hwn i roi’r newyddion diweddaraf i’r Pwyllgor am waith yr Asiantaeth ar hyrwyddo gwell Iechyd Deietegol a Dewis Defnyddwyr.

Sefydlwyd yr ASB ym mis Ebrill 2000 fel Adran Anweinidogol o’r Llywodraeth. Mae ganddo gylch gwaith, sy’n ymestyn i bob cwr o’r DU, "i ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a all godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd (gan gynnwys risgiau a achosir gan y ffordd y caiff y bwyd ei gynhyrchu neu ei gyflenwi) ac i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd". Mae Cynllun Strategol yr Asiantaeth ar gyfer 2005-10 yn amlinellu rhaglen o gamau i annog defnyddwyr i ddewis deiet iach; i wneud bwyta’n iach yn ddewis haws; ac i helpu i leihau clefydau sy’n gysylltiedig â deiet.

Er mwyn gwella deiet ac iechyd ledled y DU, yn enwedig i ddefnyddwyr yng Nghymru, mae’r Asiantaeth yn gweithredu ar lefel yr UE, y DU a Chymru (lle rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru) i wneud bwyta’n iach yn haws trwy:

- Ddylanwadu ar bobl
- Newid cynhyrchion
- Dylanwadu ar yr amgylchedd

Mae sleidiau ar gyfer y cyflwyniad yn Atodiad 1. Mae’r sleid gyntaf yn amlinellu’r cynllun, a gall helpu i ddangos agwedd yr ASB at wella iechyd deietegol. Mae’r sleidiau eraill yn darparu enghreifftiau o fentrau sy’n cael sylw yn y cyflwyniad, fel ymgyrch halen a chynllun labelu arwyddbyst yr Asiantaeth.

Cyswllt: Joy Whinney, Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, ffôn: 02920 678903